



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust

Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau  
Ambiwylans Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Elusen 2023-24

(Rhif Cofrestru'r Elusen 1050084)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust

## DIOLCH

Mae'n bleser gennym ddod ag Adroddiad Blynyddol Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) i chi ar gyfer 2023-24.

Hoffem estyn ein diolch o galon ddiffuant i bawb yn ein cymunedau sydd wedi cefnogi ein helusen. Diolch i'ch haelioni, roedd Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn gallu darparu cefnogaeth amhrisiadwy i'n staff a gwella'r ffyrdd y maen nhw'n darparu gwasanaethau hanfodol i'n cleifion.

Hoffem hefyd ddiolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr. Mae'r ffordd yr ydych yn darparu safonau uchel o ofal cleifion yn gyson yn aml yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r rhoddion a'r cymynroddion y mae'r Elusen yn eu derbyn.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24, parhaodd yr Elusen i fyfrio ar ei chyfeiriad strategol ac aethpwyd â hyn ymlaen i 2024-25. Rydym wedi parhau i werthuso ein sefyllfa bresennol gyda golwg ar fuddsoddi mewn adnoddau i gynyddu ein heffaith, gwneud y mwyaf o gyfleoedd codi arian a grantiau yn y dyfodol, a chefnogi'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.

Gyda phenodiad Pennaeth Elusen newydd (o fis Hydref 2024), a Rheolwr Codi Arian a Chyfathrebu (i'w recriwtio yn gynnar yn 2025), bydd yr Elusen yn datblygu ffrydiau codi arian newydd dros y blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn galluogi'r Elusen i barhau i dyfu, ac i fuddsoddi mwy o incwm mewn prosiectau a fydd o fudd i gleifion, staff a gwirfoddolwyr ledled Cymru.

**Colin Dennis**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol**

**Dyddiad: 30 Ionawr 2025**

**Ceri Jackson**

**Is-gadeirydd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Elusennau  
(Is-gadeirydd Dros Dro yn weithredol 01 Rhagfyr 2023-30 Mehefin 2024)**

**Dyddiad: 30 Ionawr 2025**



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust

## CYNNWYS

1. EIN Diben, CYFLAWNIADAU A CHYNLLUNIAU .....	4
1.1 Ein Diben .....	4
1.2 Sut rydym yn helpu .....	4
1.3 Ein Cynlluniau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.....	5
2. EIN CYLLID.....	6
2.1 Incwm.....	6
2.2 Gwariant .....	7
2.3 Y Sefyllfa Ariannol Gyffredinol ar 31 Mawrth 2024 .....	9
2.4 Polisi Cronfeydd Wrth Gefn .....	9
3. Ein Llywodraethu .....	10
3.1 Strwythur, Llywodraethu a Rheoli'r Elusen .....	10
3.2 Ein cyngorwyr .....	12
3.3 Rheoli Risg.....	13
3.4 Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Ymddiriedolaeth WAST fel Ymddiriedolwr Corfforaethol.....	14
4. CYFRIFON BLYNYDDOL .....	15



# 1. EIN DIBEN, CYFLAWNIADAU A CHYNLLUNIAU

## 1.1 Ein Diben

Elusen Gwasanaeth Ambiwllans Cymru yw elusen swyddogol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST). Mae gan yr elusen yr amcan elusennol canlynol:

*Bydd yr Ymddiriedolwr yn dal y gronfa ymddiriedolaeth mewn ymddiriedolaeth i gymhwyso'r incwm ac yn ôl ei ddisgresiwn i'r graddau y gellir ei ganiatáu, y cyfalaf, at unrhyw ddiben neu ddibenion elusennol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.*

Enillodd yr Ymddiriedolaeth statws Ymddiriedolaeth Brifysgol o 01 Ebrill 2024, nad yw yn y cyfnod adrodd hwn ar gyfer yr Elusen. Mae'n berthnasol nodi'r newid gan fod enw'r Ymddiriedolaeth wedi newid yn ffurfiol ac adlewyrchir y newid hwn yn y manylion yn adroddiad 2023-24.

## 1.2 Sut rydym yn helpu

Mae'r Elusen yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth i sicrhau ei bod yn dyrannu cyllid i feysydd lle gall gael yr effaith fwyaf.

Nid ydym yn disodli cyllid y GIG ond yn defnyddio'r rhoddion hael a gawn i gefnogi WAST i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau y tu hwnt i'r hyn y gall y GIG ei ddarparu.

Yn 2023-24 roedd yr Elusen yn cefnogi staff yn ymarferol ac yn emosiynol. Gwerthfawrogir hyn bob amser, yn enwedig drwy gyfnod heriol y gaeaf. Roedd y cymorth llesiant a ariannwyd gennym wedi cefnogi ein pobl i barhau i allu darparu gofal o'r ansawdd uchaf i'n cleifion yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn.



Prynodd yr Elusen hefyd gyfleusterau i ddarparu amgylchedd mwy croesawgar i griwiau, a oedd yn cefnogi eu lles ac yn darparu adnoddau hyfforddi ychwanegol i wella ymhellach ansawdd a safonau'r gofal a ddarperir gan ein pobl.

Rydym yn ddiolchgar i NHS Charities Together, sydd yn 2023-24 wedi dyfarnu dau grant newydd i'r Elusen tuag at ei gwaith. Mae'r grantiau hyn wedi galluogi'r Elusen i ddarparu offer a hyfforddiant i wirfoddolwyr WAST, ac i gefnogi staff WAST trwy fentrau iechyd a lles newydd. Mae'r Elusen hefyd wedi gallu cefnogi rhaglen Ymatebwyr Lles Cymunedol newydd yr Ymddiriedolaeth, diolch i gyllid gan NHS Charities Together.

### 1.3 Ein Cynlluniau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt

Penododd yr Elusen ymgynghorydd strategol yn 2022-2023 i adolygu opsiynau ar gyfer cyfeiriad yr Elusen yn y dyfodol, er mwyn cefnogi ein pobl a'n cleifion yn well. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol wedi cytuno mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen yw rhoi adnoddau i'r elusen i'w galluogi i ddilyn dyfodol fel galluogwr strategol, gyda'r uchelgais am dwf sylweddol mewn incwm codi arian gan dargedu ymddiriedolaethau elusennol mwy ac ehangu'r cymorth y gallwn ei ddarparu i'n pobl a'n cleifion.

Gyda phenodiad Pennaeth Elusen newydd (o fis Hydref 2024), a Rheolwr Codi Arian a Chyfathrebu (i'w recriwtio yn gynnar yn 2025), nod yr Elusen yw datblygu ffrydiau codi arian newydd dros y blynyddoedd i ddod. Bydd y rhain yn cynnwys codi arian cymunedol, grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, a rhoddion corfforaethol.

Mae disgwyl i'r rhagolygon ar gyfer codi arian yn y DU yn 2024-25 barhau i fod yn heriol ac yn gystadleuol. Blaenoriaeth allweddol i'r Pennaeth Elusen newydd fydd sicrhau y gall yr Elusen gyrraedd cynulleidfaoedd newydd trwy farchnata a chyfathrebu, a dangos ei heffaith yn fwy effeithiol, trwy achos cryf dros gefnogaeth.




## 2. EIN CYLLID

### 2.1 Incwm

Cedwir yr holl incwm a dderbynnir naill ai mewn cronfeydd anghyfyngedig, dynodedig neu gyfyngedig, yn dibynnu ar amodau (os o gwbl) y rhodd, y gymynrodd, neu'r grant.

Yn ystod 2023-24, roedd 83% o incwm gwirfoddol yr elusen (rhoddion a chymynroddion) yn incwm cyfyngedig ac 17% yn anghyfyngedig. Mae'r Elusen yn ddiolchgar am yr holl roddion a dderbyniwyd, sy'n ein galluogi i gyflwyno gweithgareddau a fydd o fudd i staff, gwirfoddolwyr a chleifion. Lle bynnag y bo modd, bydd yr Elusen bob amser yn annog rhoddwyr i wneud rhoddion anghyfyngedig, gan fod hyn yn caniatáu i'r Elusen ddefnyddio'r cronfeydd hynny lle mae eu hangen fwyaf ar y pryd. Sylwch fod incwm grant yr elusen wedi'i gyfyngu at ddibenion y set honno o fewn ei cheisiadau grant.

Mae'r siart isod yn dangos ein prif ffynonellau incwm yn 2023-24, sef cyfanswm o £622,200:





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust

### Rhoddion £19,435 (2022/23 £14,882)

Mae 3% o incwm yr elusen wedi dod gan gleifion a'u teuluoedd sydd eisiau dangos gwerthfawrogiad am y gofal a'r gefnogaeth y maen nhw wedi'u derbyn gan ein pobl. Rydym yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth y mae'r cyhoedd a'r staff wedi'i rhoi i ni i'n helpu i wireddu ein nodau.

### Cymynroddion £164,886 (2022/23 £5,000)

Derbyniodd yr elusen bum cymynrodd yn ystod 2023-24, gyda dau ohonynt yn dal cyfyngiadau. Roedd un o'r cymynroddion cyfyngedig am y swm o £148,886. Mae Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn ddiolchgar am bob cymynrodd ac yn ddiolchgar i'r rhai sy'n meddwl amdanom wrth wneud eu hewyllys.

### Grantiau £427,080 (2022/23 £10,566)

Mae incwm grant yr elusen wedi'i dderbyn gan NHS Charities Together fel rhan o'i grant Datblygu, grant Adfer Cam-3, a'i dyfarniadau grant Ambiwylans.

### Incwm Buddsoddi £10,799 (2022/23 £4,158)

Daw'r incwm buddsoddi hwn ar ffurf dididendau a llog o fuddsoddiadau a balansau arian parod a ddelir gan yr elusen.

## 2.2 Gwariant

Yn ystod 2023-24 mae'r elusen wedi parhau i gefnogi ystod eang o weithgareddau elusennol ac iechyd ar draws WAST. Gwneir gwariant elusennol gan roi ystyriaeth i fudd cyhoeddus a chynhelir proses o adolygu a gwerthuso ar geisiadau am arian i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion yr elusen.

Mae enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd gan yr Elusen yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y canlynol:

- Costau ac offer prosiect, fel pecynnau arsylwi, i ehangu gallu Ymatebwyr Lles Cymunedol yr Ymddiriedolaeth. Yn rhan o fenter Connected Support Cymru yr




Ymddiriedolaeth, mae'r prosiect hwn yn cefnogi gwell penderfyniadau clinigol o bell trwy arsylwi yn y fan a'r lle

- Offer hyfforddi newydd i gefnogi ein hyfforddiant Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned a'n sesiynau cynefino
- Bwrsariaethau hyfforddi ar gyfer 12 aelod o staff, gan eu galluogi i barhau â'u datblygiad proffesiynol y tu hwnt i'r hyn sy'n bosibl drwy gyllid y GIG
- Mannau gorffwys cyfforddus newydd i staff, gan gynnwys Ystafell Ymlacio newydd ar gyfer trinwyr galwadau a chlinigwyr 111

### Dadansoddiad o wariant

Yn 2023-24 roedd cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol yn £105,039 (2022/23 £153,023). Roedd y categorïau gwariant fel a ganlyn:



### Costau rheoli a gweinyddu

Cyfanswm y costau rheoli a gweinyddu ar gyfer 2023-24 oedd £10,600. Mae hyn yn cynrychioli 2.7% o falansau'r gronfa agoriadol a ddelir ar 1 Ebrill 2023.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust

## Buddsoddiadau a pherfformiad

Mae'r elusen yn dal unedau buddsoddi gyda CCLA Good Investment Rheolir y buddsoddiadau hyn gan CCLA. Ni wnaed unrhyw bryniannau ychwanegol yn ystod 2023-24.

Yn ystod 2023-24 cynyddodd gwerth marchnad y buddsoddiadau gan £30,715.

### 2.3 Y Sefyllfa Ariannol Gyffredinol ar 31 Mawrth 2024

Gwerth yr Elusen ar 31 Mawrth 2024 oedd £946,886. Dyma gynnydd o 547,876 o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yng ngwerth yr Elusen i'w briodoli'n bennaf i roddion cyfyngedig sylweddol a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol hon – gan gynnwys grantiau mawr gan NHS Charities Together, a chymynroddion cyfyngedig mawr sydd i'w gwario ar ddibenion penodol. Mae'r Elusen wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer gwariant arfaethedig y cronfeydd cyfyngedig hyn.

### 2.4 Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Nid oedd unrhyw ymrwymadau rheolaidd yn 2023-24, heblaw am y ffi reoli o £10,000 (ac yn yr un modd yn 2024-25) yn erbyn balansau cronfeydd elusennol anghyfyngedig.

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol o'r farn y dylid cymhwyso rhoddion o fewn cyfnod rhesymol o'u derbyn, cyn belled nad oes unrhyw gynlluniau tymor hir cymeradwy sy'n gofyn am Gronni Balansau, a bod gwariant yn cynrychioli defnydd priodol o arian.



## 3. EIN LLYWODRAETHU

### 3.1 Strwythur, Llywodraethu a Rheoli'r Elusen

#### Ymddiriedolwr Corfforaethol

Mae gan yr elusen unig Ymddiriedolwr Corfforaethol sef Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Yr Ymddiriedolaeth fel yr unig Ymddiriedolwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am reoli a defnyddio arian a ddelir mewn ymddiriedolaeth.

Penodir Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a phenodir y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth.

Darperir cyfnod cynefino a hyfforddiant priodol i aelodau newydd o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae dogfennau ymgyswddo a ddarperir ar gyfer aelodau newydd yn cynnwys adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol y flwyddyn flaenorol, a gwybodaeth berthnasol am yr elusen. Mae aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Nid yw'r elusen yn gwneud unrhyw daliad am daliad cydnabyddiaeth, ac nid yw ychwaith yn ad-dalu treuliau i'r unigolion uchod am weithgareddau a gyflawnwyd yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwr Corfforaethol.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ddatgelu'r holl fuddiannau perthnasol, eu cofrestru gyda'r Ymddiriedolaeth a thynnu'n ôl o benderfyniadau pan fo gwrthdaro yn codi. Cyfeirir at unrhyw drafodion parti cysylltiedig yn y cyfrifon.

#### Elusen Gysylltiedig

Mae cofrestriad yr Elusen yn cynnwys elusen gysylltiedig, Cronfa Gyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gyda'r rhif cofrestru 1050084-1.



## Y Pwyllgor Elusennau

Cyfarfu'r Pwyllgor Elusennau chwe gwaith yn 2023-24 ac adroddodd i Fwrdd WAST bob tro. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn dirprwyo i'r Pwyllgor Elusennau i:

- (a) Gyfrannu at ddatblygu strategaeth yr elusen a monitro ei weithrediad.
- (b) Darparu sicrwydd i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol bod cronfeydd elusennol yn cael eu cyfrifo, eu defnyddio, a'u buddsoddi yn unol â gofynion cyfreithiol a statudol.
- (c) Ystyried a chadarnhau'r cyfrifon blynyddol i'w cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr Corfforaethol.
- (d) Codi proffil ac enw da'r elusen.
- (e) Ystyried ac awdurdodi gwariant gwerth dros £50,000 ar gyfer bidiau gan y Panel Bidiau neu Fwrsariaethau, yn amodol ar argymhelliad gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT).

Ers dechrau blwyddyn ariannol 2024/25 mae'r awdurdod dirprwyedig i'r Paneli Cynigion a Bwrsariaethau wedi'i addasu ac mae'n ofynnol bellach i'r Pwyllgor Elusennau dderbyn a chymeradwyo bidiau am gronfeydd elusennol gwerth dros £5,000, yn amodol ar argymhelliad i'w cymeradwyo gan Dîm Arwain Gweithredol yr Ymddiriedolaeth. Roedd aelodaeth y Pwyllgor Elusennau rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

### Aelodau'r Pwyllgor:

Ceri Jackson	Aelod o'r Pwyllgor (Cadeirydd o 05 Mai 2022)
Kevin Davies	Aelod o'r Pwyllgor
Bethan Evans	Aelod o'r Pwyllgor
Hannah Rowan	Aelod o'r Pwyllgor

### Mynychwyr Rhagnodedig ar gyfer y Pwyllgor:

Chris Turley	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol (Trysorydd)
Lee Brooks	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Andy Swinburn	Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth GIG  
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
NHS Trust

---

Trish Mills	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
Liz Rogers	Is-gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant
Julie Boalch	Cadeirydd y Panel Cynigion
Jo Kelso	Cadeirydd y Panel Bwrsariaethau
Damon Turner	Partner Undeb Llafur
Hugh Parry	Partner Undeb Llafur
Marcus Viggers	Partner Undeb Llafur

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu aelodaeth y Pwyllgor Elusennau fel rhan o'i adolygiad effeithiolrwydd blynyddol.

Ar hyn o bryd nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu system lle mae rheolwyr cronfeydd yn cael eu dirprwyo i'r cyfrifoldeb am weinyddu rhai cronfeydd. Yn lle hynny, sefydlodd y Pwyllgor Elusennau y Panel Cynigion a'r Panel Bwrsariaethau ar gyfer caniatáu ceisiadau i ddefnyddio cronfeydd elusennol. Mae'r Paneli yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ym mhob cyfarfod. Mae canllawiau yn eu lle i gynorthwyo'r Paneli i ddefnyddio arian.

Nod yr elusen yw bod yr holl wariant er budd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac felly er budd y cyhoedd. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn ymwybodol o'i ddyletswyddau mewn perthynas â budd cyhoeddus.

### Cyfeiriad cofrestredig

Cyfeiriad cofrestredig yr Elusen yw Tŷ Elwy, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0LJ

## 3.2 Ein cyngorwyr

### Bancwyr

Mae'r elusen wedi cadw gwasanaethau bancio yn ystod y flwyddyn gan Fanc Barclays ccc, Canolfan Bancio Corfforaethol, 70 Ffordd y Brenin, Abertawe SA1 5JB



## Archwilwyr Allanol

Yr archwilwyr elusen yn ystod y flwyddyn oedd

Archwilio Cymru, 1 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.

## Rheolwr Buddsoddi

CCLA Good Investment, One Angel Lane, Llundain, EC4R 3AB

### 3.3 Rheoli Risg

Yn 2023-24 mae'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r elusen yn ymwneud â risg rheolaethau ariannol a risg buddsoddi. Yn 2024-25 mae'r Elusen wedi canolbwyntio mwy ar y risgiau y mae'n eu hwynebu, a bydd y rhain yn parhau i gael eu tynnu allan a'u mynegi wrth i'r cyfeiriad strategol gael ei osod.

#### Risg rheolaethau ariannol

Mae'r rheolaethau ariannol sy'n gweithredu mewn perthynas â'r cronfeydd elusennol yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth ac fe'u pennir yn y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Diben y rheolaethau hyn yw sicrhau nad yw'r gronfa elusennol yn agored i unrhyw risgiau mawr. Mae'r rheolaethau sydd ar waith yn destun adolygiad parhaus ac yn destun adolygiad archwilio allanol blynyddol.

Cyflwynir adroddiadau ariannol sy'n dangos incwm a gwariant ynghyd â dadansoddiad o newidiadau ariannol sylweddol i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Elusennau. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn cymeradwyo cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol yr Elusen bob blwyddyn cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

Archwilio Cymru sy'n cynnal yr archwiliad allanol o gyfrifon elusennau. O ystyried maint yr elusen mae hwn fel arfer yn archwiliad annibynnol, gydag archwiliad llawn yn cael ei gynnal o bryd i'w gilydd. Cynhaliwyd archwiliad llawn o'r cyfrifon yn 2021-22, ac yn 2022-23 a 2023-24 dychwelodd hyn i fod yn Archwiliad Annibynnol a gwblhawyd gan Archwilio Cymru.



## Risg buddsoddi

Mae'r risg yn ymwneud â'r ansicrwydd yn y marchnadoedd buddsoddi ac anwadalrwydd y cynnyrch. Caiff hyn ei liniaru drwy fuddsoddi mewn portffolio o fuddsoddiadau drwy gyngor proffesiynol rheolwyr buddsoddi. Ein rheolwyr buddsoddi yw CCLA ac mae diweddariad ar y buddsoddiad wedi'i gynnwys ym mhob adroddiad cyllid i'r Pwyllgor Elusennau gyda'r Tîm Cyllid yn monitro'r buddsoddiad yn fisol.

Polisi buddsoddi'r Elusen yw dal isafswm o 20% mewn cyfrifon banc sy'n ennill llog ac uchafswm o 50% mewn incwm sefydlog neu gronfeydd ecwiti. Mae hyn er mwyn cael yr adenillion mwyaf ar fuddsoddiad gyda'r risg lleiaf posibl i'r cronfeydd.

Nid oes gan yr Elusen bolisi ar hyn o bryd o roi grantiau i gyrff heblaw'r Ymddiriedolaeth ac ni wnaed yr un yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Rhoddodd adroddiad i'r Pwyllgor Elusennau (y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn flaenorol) yn 2023 sicrwydd i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol ar y buddsoddiad moesegol.

### 3.4 Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Ymddiriedolaeth WAST fel Ymddiriedolwr Corfforaethol

Roedd yr aelodau â phleidlais yn cynnwys:

- Colin Dennis, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth
- Peter Curran, Cyfarwyddwr Anweithredol o 01 Chwefror 2024
- Yr Athro Kevin Davies, Is-gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth tan 30 Tachwedd 2023 a Chyfarwyddwr Anweithredol o 01 Rhagfyr 2023. Gadawodd Kevin Davies Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 30 Medi 2024.
- Bethan Evans, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Paul Hollard, Cyfarwyddwr Anweithredol tan 31 Mawrth 2024
- Ceri Jackson, Cyfarwyddwr Anweithredol tan 30 Tachwedd 2023 ac Is-gadeirydd Dros Dro o 01 Rhagfyr 2023 tan 20 Mehefin 2024. Daeth Ceri Jackson yn Is-gadeirydd parhaol, a ddaeth i rym ar 01 Gorffennaf 2024.
- Hannah Rowan, Cyfarwyddwr Anweithredol



- Joga Singh, Cyfarwyddwr Anweithredol (gadawodd Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Awst 2024)
- Martin Turner, Cyfarwyddwr Anweithredol tan 31 Ionawr 2024
- Jason Killens, Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth
- Christopher Turley, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol
- Lee Brooks, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
- Dr Brendan Lloyd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol tan 31 Rhagfyr 2023
- Rachel Marsh, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
- Andy Swinburn, Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth (aelod â phleidlais ar 01 Ionawr 2024)
- Liam Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio

Roedd yr aelodau heb bleidlais yn cynnwys:

- Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu
- Angela Lewis, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant
- Jonny Sammut, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol o 27 Medi 2023
- Dr Leanne Smith, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Digidol tan 11 Hydref 2023
- Trish Mills, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd
- Hugh Parry, Cynrychiolydd Undeb Llafur (o 30 Mehefin)
- Damon Turner, Cynrychiolydd Undeb Llafur

## 4. CYFRIFON BLYNYDDOL